## ATODLEN 1

(Rheoliad 4)

### *Ethol a phenodi rhiant-lywodraethwyr*

**1.** Yn yr Atodlen hon ystyr "awdurdod priodol" ("*appropriate authority*") yw—

(a) mewn perthynas ag ysgol gymunedol, ysgol arbennig gymunedol, ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol wirfoddol a reolir, yr awdurdod addysg lleol; a

(b) yn ddarostyngedig i baragraff 3, mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ysgol sefydledig neu ysgol arbennig sefydledig, y corff llywodraethu.

**2.** Os yr awdurdod addysg lleol yw'r awdurdod priodol mewn perthynas ag ysgol, caiff yr awdurdod hwnnw ddirprwyo i bennaeth yr ysgol unrhyw rai o'i swyddogaethau o dan yr Atodlen hon.

**3.** Yr awdurdod addysg lleol fydd yr awdurdod priodol mewn perthynas ag ysgol o fewn paragraff 1(b) os bydd y corff llywodraethu a'r awdurdod addysg lleol yn cytuno ynghylch hynny.

**4.** Yn ddarostyngedig i baragraffau 5 i 9 rhaid i'r awdurdod priodol wneud yr holl drefniadau angenrheidiol i ethol rhiant-lywodraethwyr.

**5.** Yr awdurdod priodol sydd i benderfynu, at ddibenion ethol rhiant-lywodraethwyr, unrhyw gwestiwn ynghylch a yw person yn rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol.

**6.** Yn achos y pŵer a osodir gan baragraff 4—

(a) nid yw'n cynnwys pŵer i osod unrhyw ofynion ynghylch yr isafswm o bleidleisiau y mae angen eu bwrw i ymgeisydd gael ei ethol, ond

(b) mae'n cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch dyddiadau cymhwyso.

**7.** Rhaid cynnal unrhyw etholiad a ymleddir drwy bleidlais gudd.

**8.**—(1) Rhaid i'r trefniadau a wneir o dan baragraff 4 ddarparu bod pawb sydd â'r hawl i bleidleisio yn cael cyfle i wneud hynny drwy'r post.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), mae "post" ("*post*") yn cynnwys danfon drwy law.

(3) Caiff y trefniadau a wneir o dan baragraff 4 ddarparu i bawb y mae ganddo neu ganddi hawl i bleidleisio gael cyfle i wneud hynny drwy gyfrwng electronig.

**9.** Pan ddaw lle'n wag i riant-lywodraethwr, rhaid i'r awdurdod priodol gymryd y camau hynny sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod pob un y mae'n gwybod ei fod yn rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol—

(a) yn cael gwybod am y lle gwag a'i bod yn ofynnol ei lenwi drwy etholiad;

(b) yn cael gwybod bod ganddo hawl i sefyll fel ymgeisydd a phleidleisio yn yr etholiad; ac

(c) yn cael cyfle i wneud hynny.

**10.** Rhaid sicrhau'r nifer o riant-lywodraethwyr sy'n ofynnol drwy ychwanegu rhiant-lywodraethwyr a benodir gan y corff llywodraethu, os daw un neu ragor o lefydd ar gyfer rhiant-lywodraethwyr yn wag a naill ai—

(a) bod y nifer o rieni sy'n sefyll i'w hethol yn llai na nifer y lleoedd gwag;

(b) bod o leiaf 50 y cant o'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol yn lletywyr ac y byddai, ym marn yr awdurdod priodol, yn anymarferol ethol rhiant-lywodraethwyr; neu

(c) yn achos ysgol sy'n ysgol arbennig gymunedol neu'n ysgol arbennig a sefydlwyd mewn ysbyty, y byddai, ym marn yr awdurdod priodol, yn anymarferol ethol rhiant-lywodraethwyr.

**11.**—(1) Ac eithrio pan fo paragraff 12 yn gymwys, rhaid i'r corff llywodraethu benodi'n rhiant-lywodraethwr—

(a) rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol; neu

(b) pan nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, rhiant plentyn sydd o oedran ysgol gorfodol, neu yn achos ysgol feithrin a gynhelir, sydd o oedran neu o dan oedran ysgol gorfodol.

**12.**—(1) Pan fo'r ysgol yn ysgol arbennig gymunedol neu'n ysgol arbennig sefydledig, rhaid i'r corff llywodraethu benodi—

(a) rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol; neu

(b) rhiant plentyn sydd o oedran ysgol gorfodol ac sydd ag anghenion addysgol arbennig; neu

(c) rhiant person o unrhyw oedran sydd ag anghenion addysgol arbennig; neu

(ch) rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol.

(2) Dim ond os nad yw'n rhesymol ymarferol penodi person y cyfeirir ato yn yr is-baragraff sy'n union o'i flaen y caiff y corff llywodraethu benodi person y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) (b), (c) neu (ch).